

**Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod y Panel Cynghori ar
Amaethyddiaeth (AAP)
Cyfarfod 12 – 4 Medi 2018**

Hafod y Hendre, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, Llanfair-ym-muallt

Presennol

Lionel Walford – Cadeirydd
Peter Rees – Aelod Annibynnol
Steve Hughson – Aelod Annibynnol
Darren Williams – FUW
Bernard Griffiths - FUW
Will Prichard – NFU
Dylan Morgan – NFU
Kate Tandy - NFU
Ivan Monckton - UNITE
Paddy McNaught – UNITE
Bridget Henderson - UNITE

Helen Snow – Geldards
Luke Crossman - AHDB

Spencer Conlon – Llywodraeth Cymru
Ryan Davies – Llywodraeth Cymru
Karla Price – Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau

Nick Fenwick – FUW
David Swales – AHDB

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn syth ar ôl Cyfarfod 11 ar 4^{ydd} Medi 2018

Eitem 1 – Papur Asesu Effaith

Nodwyd y papur gan y panel.

Oherwydd cyflwynwyd papur Unite y diwrnod hwnnw, treuliodd NFU / FUW ychydig o amser yn ei ddarllen ac yn ei drafod.

Eitem 2 – Barn NFU / FUW ar y newidiadau arfaethedig i'r strwythur graddio

Diolchodd yr Undebau i Unite am eu papur – dywedwyd mai'r rhesymeg y tu ôl i'w papur eu hunain oedd symleiddio'r broses a gwneud y system yn fwy clir ac mae Unite wedi rhestru pethau dilys i'w hystyried.

Eitem 3 – Barn Unite ar y newidiadau arfaethedig i'r strwythur graddio

Dywedodd Unite fod angen i ni fod yn glir nad ydym yn gwahaniaethu a bod angen i'r holl ddata a'r holl wybodaeth gael ei darparu. Fodd bynnag, mae angen i ni fod yn ofalus o ran sut rydym yn mynd i'r afael â hyn ynghylch hawliadau cyflog cyfartal posib.

Trafododd y panel y data y bydd ei angen a chytunwyd ar y canlynol:

- Nifer y gweithwyr ym mhob sector: defaid / cig eidion / llaeth / cymysg / grawnfwydydd / garddwriaeth / coedwigaeth
- Dosbarthiad oedran
- Rhywedd
- Gradd
- Llawn amser / Rhan-amser / Dros dro
- Y nifer yn y categorïau uchod sy'n derbyn yr isafswm cyflog

Cytunwyd y Panel i ysgrifennu'n ffurfiol at Lywodraeth Cymru. Yna byddai Llywodraeth Cymru'n siarad â chydweithwyr yn fewnol ac yn ceisio cael cyllidebau cymesur.

Eitem 4 – Trafodaeth ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r strwythur a'r darpariaethau yn y Gorchymyn i'w wneud yn fwy perthnasol i'r diwydiant yng Nghymru

Trafododd y Panel opsiynau o ran sut i foderneiddio'r Gorchymyn o 2020 neu unrhyw beth yr oedd angen eglurhad yn ei gylch wrth i ni symud ymlaen. Cytunwyd bod angen cadw'r momentwm a enillwyd hyd yma a byddai hefyd yn fuddiol pe bai amcangyfrifydd cyflogau ar-lein ar gael ar wefan y Panel. Cynhelir ymchwil ar hyn.

Eitem 5 – Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd unrhyw fater arall gan yr aelodau o amgylch y bwrdd

Eitem 6 – Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Cytunwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar ddydd Llun 29^{ain} Hydref 2018 a bydd y cyfarfod hwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a datblygu'r Gorchymyn yn yr hir dymor.